Page

# Treftadaeth 2033 – ein strategaeth 10 mlynedd


Baddonau Rhufeinig, Caerfaddon © 2017 aroundworld/Shutterstock

Fel y cyllidwr mwyaf ar gyfer treftadaeth y DU, ein gweledigaeth yw i dreftadaeth gael ei gwerthfawrogi, ei gofalu a'i chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol.

Remote video URL

Rydym wedi ymgorffori cynnwys o YouTube yma. Gan y gall YouTube gasglu data personol ac olrhain eich ymddygiad gwylio, byddwn ond yn llwytho'r fideo ar ôl i chi gydsynio i'w defnydd o gwcis a thechnolegau tebyg fel y disgrifir yn eu polisi preifatrwydd. Byddwn hefyd yn gosod cwci i gofio eich dewis.

Ydw, rwy'n cytuno [Gwyliwch ar YouTube]

Dros y deng mlynedd nesaf byddwn yn cymryd golwg mwy hirdymor, gan fuddsoddi mewn treftadaeth ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Byddwn ni'n buddsoddi mewn lleoedd, nid prosiectau unigol yn unig, er mwyn sicrhau buddion ar gyfer pobl, lleoedd a'n hamgylchedd naturiol.

Byddwn ni'n cryfhau partneriaethau gyda llywodraethau, awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol ac yn creu partneriaethau newydd gyda'r rhai sy'n rhannu ein gweledigaeth.

Mae'r uchelgeisiau hyn wedi'u nodi mewn fframwaith buddsoddi wedi'i symleiddio ac yn ffurfio sylfaen ein gweledigaeth a rennir i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth ac i'w chynnal ar gyfer pawb.

- Golwg cyflym: trosolwg o'r strategaeth
- Archwilio a lawrlwytho ein strategaeth newydd

## Cynllun cyflwyno 2023–2026

Yn y cyntaf o'n cynlluniau cyflwyno tair blynedd, bu ni ddisgrifio sut rydyn ni'n bwriadu buddsoddi dros £1biliwn rhwng 2023 a 2026, newidiadau i'n Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'n blaenoriaethau buddsoddi.

- Archwilio a lawrlwytho ein cynllun cyflwyno 2023–2026

## Ein hegwyddorion buddsoddi

Pedair egwyddor fuddsoddi newydd yn cyfeirio'r holl benderfyniadau y byddwn yn eu gwneud drwy rhaglenni ariannu agored, ein buddsoddiadau strategol neu wrth ymgymryd â gwaith ar y cyd a phartneriaethau newydd.

- **Achub treftadaeth**: gwarchod a gwerthfawrogi treftadaeth, nawr ac yn y dyfodol.
- **Diogelu'r amgylchedd**: cefnogi adferiad natur a chynaladwyedd amgylcheddol.
- **Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad**: cefnogi gwell cynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth.
- **Cynaladwyedd sefydliadol**: cryfhau treftadaeth er mwyn iddi addasu a bod yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau.

Byddwn yn gofyn i brosiectau a ariannwn gymryd y pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth yn eu ceisiadau.

**Ymdrin â'n hegwyddorion buddsoddi yn eich cais**

## Cipolwg

Archwiliwch yr ymchwil, yr adborth a'r dadansoddi a lywiodd ein strategaeth newydd:

- dadansoddiad o ganlyniadau ein harolwg ymgysylltu
- adroddiad o'n sector ac ymchwil gyhoeddus gyffredinol
- ein hasesiad effaith cydraddoldeb o Dreftadaeth 2033

# Trosolwg o Treftadaeth 2033

See all updates
Hoffech chi drosolwg cyflym o'n strategaeth 10 mlynedd? Cymerwch gipolwg ar ein fideo byr a'n 'strategaeth ar y dudalen' isod ac yn y PDF atodedig.

| Atodiad | Maint |
|---|---|
| Heritage 2033 strategy in a page | 723.63 KB |
| Strategaeth Treftadaeth 2033 mewn tudalen | 137.16 KB |

Remote video URL

Rydym wedi ymgorffori cynnwys o YouTube yma. Gan y gall YouTube gasglu data personol ac olrhain eich ymddygiad gwylio, byddwn ond yn llwytho'r fideo ar ôl i chi gydsynio i'w defnydd o gwcis a thechnolegau tebyg fel y disgrifir yn eu polisi preifatrwydd. Byddwn hefyd yn gosod cwci i gofio eich dewis.

Ydw, rwy’n cytuno Gwyliwch ar YouTube

## Ein gweledigaeth

Rydym eisiau gwerthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

## Ein hegwyddorion buddsoddi a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni erbyn 2023

**Achub treftadaeth:**

- gwella cyflwr treftadaeth a dealltwriaeth ohoni
- llai o 'dreftadaeth mewn perygl’
- cyflwyno prosiectau trawsnewidiol hirdymor
- gwneud treftadaeth ddigidol yn fwy hygyrch

**Diogelu'r amgylchedd:**

- cychwyn adferiad tirweddau a chynefinoedd
- gwell dealltwriaeth o natur a chysylltiad â hi
- lleihau effaith amgylcheddol negyddol ein portffolio ariannu
- gwella gallu treftadaeth i addasu i newid yn yr hinsawdd

**Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad:**

- cynyddu amrywiaeth gweithluoedd a chynulleidfaoedd treftadaeth
- isafu rhwystrau i bobl sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth
- galluogi i dreftadaeth mwy o bobl gael ei chydnabod
- eirioli technoleg ddigidol er mwyn gwella mynediad

**Cynaladwyedd sefydliadol:**

- gwella galluoedd masnachol a llywodraethol sefydliadau

- datblygu sgiliau a chapasiti ar draws treftadaeth
- ymwreiddio cydnerthedd yn y prosiectau a ariannwn
- cryfhau cyfraniad treftadaeth at economïau lleol

## Ein hymagwedd

- Rhaglenni agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth gyda'r mwyafrif o'r penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel leol.
- Ymyriadau strategol i fynd i'r afael â materion graddfa fawr a thraws-diriogaethol.
- Partneriaethau sy'n cyfuno adnoddau ac arbenigedd i greu buddsoddiadau â mwy o effaith.
- Ffocws ar le, tirwedd a natur, treftadaeth mewn angen ac ymateb i gyfleoedd ac argyfyngau.

# Treftadaeth 2033

See all updates
Strategaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol 2023–2033.

| Atodiad | Maint |
| --- | --- |
| Heritage 2033, The National Lottery Heritage Fund strategy 2023–2033 | 11.17 MB |
| Treftadaeth 2033, Strategaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol 2023–2033 | 3.11 MB |

## Rhagair

Mae strategaeth 10 mlynedd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn amlinellu ein huchelgeisiau i gefnogi prosiectau o bob maint sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth y DU.

Canfu ein hymgynghoriad fod pobl eisiau i ni wneud hyd yn oed yn fwy i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu treftadaeth ac i gynyddu'r cyfraniad cadarnhaol y mae'n ei wneud i fywyd yn y DU.

Dros y deng mlynedd nesaf byddwn yn cymryd golwg mwy hirdymor, gan fuddsoddi mewn treftadaeth ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Byddwn ni'n buddsoddi mewn lleoedd, nid prosiectau unigol yn unig, er mwyn sicrhau buddion ar gyfer pobl, lleoedd a'n hamgylchedd naturiol.

Byddwn ni'n cryfhau partneriaethau gyda llywodraethau, awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol ac yn creu partneriaethau newydd gyda'r rhai sy'n rhannu ein gweledigaeth.

Mae'r uchelgeisiau hyn wedi'u nodi mewn fframwaith buddsoddi wedi'i symleiddio ac yn ffurfio sylfaen ein gweledigaeth a rennir i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth ac i'w chynnal ar gyfer pawb.

– Bwrdd Ymddiriedolwyr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

## Cyflwyno ein strategaeth

Fel ariannwr treftadaeth mwyaf y Deyrnas Unedig, ein gweledigaeth yw i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth ac i'w chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol. Credwn mewn nerth treftadaeth i danio'r dychymyg, cynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth, ac i ennyn balchder mewn lle a chysylltiad â'r gorffennol.

Dros y 10 mlynedd nesaf, rydym yn bwriadu buddsoddi £3.6 biliwn a godir ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i wneud gwahaniaeth go iawn i bobl, lleoedd a chymunedau.

Yn haf 2022, rhannodd dros 4,000 o randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd eu barn am dreftadaeth a'n cyfeiriad yn y dyfodol. Mae'r adborth pwerus hwn, ynghyd â'n profiad ein hunain, wedi siapio ein hymagwedd newydd.

Byddwn ni'n cryfhau ac yn canolbwyntio ein cefnogaeth i dreftadaeth y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio pedair egwyddor fydd yn sail i'n buddsoddiad:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Byddwn yn defnyddio'r egwyddorion hyn i greu fframwaith mwy hyblyg i gyfeirio ein hariannu.

Byddwn ni'n parhau i wneud yr hyn a wnawn yn dda: ein rhaglenni agored gyda phrosesau gwneud penderfyniadau datganoledig gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol ein chwe phwyllgor ardal a gwlad.

Yn y dyfodol, byddwn hefyd yn mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol at gryfhau buddsoddiad strategol, gan dargedu ein hadnoddau tuag at yr anghenion mwyaf brys.

Bydd manylion sut y byddwn yn cyflwyno'r strategaeth 10 mlynedd hon yn cael eu cyhoeddi trwy gyfres o gynlluniau cyflwyno tair blynedd.

Mae ein hymagwedd ar ei newydd wedd wedi'i greu drwy gyfraniadau ac arbenigedd hael nifer fawr o bobl a phartneriaid sy'n frwd dros dreftadaeth. Rydyn ni am barhau â'r sgyrsiau hyn, fel bod arian y Loteri Genedlaethol yn galluogi treftadaeth i ysbrydoli, a herio, ac ennyn hyfrydwch a chyfaredd, nawr ac yn y dyfodol.

– Simon Thurley, Cadeirydd

– Eilish McGuinness, Prif Weithredwr

# Gwireddu ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw gwerthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn ystyried bod treftadaeth yn eang ac yn gynhwysol, gan addasu i ddefnyddiau a heriau cyfoes ac yn y dyfodol. O'r amgylchedd hanesyddol a naturiol i'n hamgueddfeydd, ein llyfrgelloedd a'n harchifau. O'n hetifeddiaeth ddiwydiannol i draddodiadau diwylliannol, straeon, atgofion, dathliadau a mwy. Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol y mae pobl yn ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'n fraint i ni fedru cefnogi treftadaeth y Deyrnas Unedig gydag arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Ers 1994, rydym wedi buddsoddi dros £8.2bn mewn mwy na 45,000 o brosiectau. Rydym yn gweithredu ar draws pedair gwlad y DU fel corff cyhoeddus anadrannol o'r Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Rydym yn gweithio ar y cyd ag ystod eang o gyrff statudol ar draws y Deyrnas Unedig yn ogystal â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol. Rydym yn derbyn Cyfarwyddiadau Ariannol gan DCMS yn ogystal â Chyfarwyddiadau Polisi ar gyfer y DU a Lloegr, a chan lywodraethau Cymru a'r Alban. Mae gwaith yn mynd rhagddo o ddatblygu Cyfarwyddiadau yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

Rydym yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer treftadaeth ar ran llywodraethau a chyrff eraill er mwyn cyflawni ein nodau a rennir.

Bydd ein pedair egwyddor fuddsoddi newydd yn cyfeirio'r holl benderfyniadau y byddwn yn eu gwneud drwy rhaglenni ariannu agored, ein buddsoddiadau strategol neu wrth ymgymryd â gwaith ar y cyd a phartneriaethau newydd.

Byddwn yn gofyn i'r prosiectau a ariannwn gymryd y pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth yn eu ceisiadau. Yr ymgeisydd fydd yn dangos cryfder y ffocws, a'r pwyslais ar bob egwyddor. Byddwn ni'n darparu mwy o fanylion ar beth y bydd hyn yn ei olygu drwy arweiniad a'n cynlluniau cyflwyno.

# Egwyddor fuddsoddi 1

## Achub treftadaeth

***Gwarchod a gwerthfawrogi treftadaeth, nawr ac yn y dyfodol***.

### Beth mae hyn yn ei olygu

Bydd ein cefnogaeth yn sicrhau bod treftadaeth yn parhau i fod yn hygyrch, yn berthnasol, yn gynaliadwy ac wedi'i gwerthfawrogi.

### Beth fyddwn ni'n gwneud

**Treftadaeth mewn perygl:** Byddwn yn ymrwymo cyllid i ddiogelu, gwarchod ac adfywio treftadaeth o bob math sydd mewn cyflwr gwael neu mewn perygl o ddirywio, gael ei difrodi, ei hesgeuluso, ei cholli neu ei hanghofio – gan sicrhau y caiff ei gwerthfawrogi a'i deall yn well.

**Buddsoddi mewn lleoedd**: Mae gan dreftadaeth rôl unigryw wrth ddod â phobl at ei gilydd yn y lleoedd y maent yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw. Byddwn ni'n gwella cysylltiadau pobl â threftadaeth eu lleoedd lleol drwy fuddsoddi a dargedir at ein hamgylchedd hanesyddol a naturiol.

**Adfywio a chynnal**: Byddwn yn gwahodd cynigion i weithio gyda ni i ddatblygu'r sgiliau, y capasiti a'r arloesedd i gynnal a rheoli treftadaeth. Byddwn yn nodi cyfleoedd i adfywio mathau amrywiol o dreftadaeth.

### Erbyn 2033 byddwn wedi:

- Gwella cyflwr, hyfywedd a dealltwriaeth y cyhoedd o filoedd o safleoedd treftadaeth, casgliadau, cynefinoedd, rhywogaethau a threftadaeth ddiwylliannol anniriaethol.
- Gostwng, mewn ffordd y gellir ei mesur, maint y dreftadaeth a nodir ei bod 'mewn perygl', boed hynny drwy golled, wynebu difodiant, cael ei asesu fel bod mewn cyflwr gwael neu anffafriol neu mewn perygl o gael ei hanghofio.
- Cyflwyno prosiectau hirdymor i drawsnewid ardaloedd lleol, trefi, dinasoedd a thirweddau drwy fabwysiadu ymagwedd a dargedir at wella cyflwr treftadaeth a balchder pobl yn eu hamgylchedd lleol.
- Sicrhau bod yr adnoddau treftadaeth ddigidol a gefnogwn yn agored ac yn hygyrch ac y gall cenedlaethau'r dyfodol eu darganfod.

# Egwyddor fuddsoddi 2

## Diogelu'r amgylchedd

***Cefnogi adferiad natur a chynaladwyedd amgylcheddol.***

**Beth mae hyn yn ei olygu**

Byddwn ni'n cefnogi treftadaeth naturiol a phrosiectau amgylcheddol gynaliadwy sy'n helpu'r DU i gyrraedd ei thargedau adferiad natur ac i liniaru effaith newid yn yr hinsawdd ar dreftadaeth.

**Beth fyddwn ni’n gwneud**

**Tirweddau**: Byddwn ni'n cynyddu ein cefnogaeth dros brosiectau strategol ac ar raddfa tirweddau – rhai gwledig a threfol fel ei gilydd – sy'n helpu cynefinoedd a rhywogaethau i ffynnu, gan isafu a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac ar yr un pryd helpu pobl i gysylltu â'n treftadaeth naturiol unigryw.

**Natur**: Byddwn ni'n buddsoddi drwy bartneriaethau i helpu i atal a gwrthdroi colled a dirywiad cynefinoedd a rhywogaethau.

**Ôl troed amgylcheddol**: Byddwn yn cefnogi prosiectau treftadaeth sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol niweidiol ac yn helpu treftadaeth i addasu i'n hinsawdd sy'n newid. Os yw prosiectau'n ymwneud ag adeiladwaith, byddwn ni'n annog adfer, gwarchod ac ailddefnyddio, yn hytrach nag adeiladu o'r newydd.

**Lliniaru**: Byddwn yn cydweithio i ddod â rhanddeiliaid treftadaeth naturiol, adeiledig a diwylliannol ynghyd i nodi a lliniaru risgiau i dreftadaeth o'r hinsawdd a chynnwys pobl wrth sicrhau newid ymddygiad cadarnhaol.

**Erbyn 2033 byddwn wedi:**

- Cychwyn adferiad tirluniau a chynefinoedd mewn mannau trefol a gwledig, fel eu bod yn cefnogi treftadaeth naturiol doreithiog a systemau naturiol iach.
- Cynyddu dealltwriaeth a chysylltiad pobl â natur ar draws trefi, dinasoedd a'r cefn gwlad.
- Isafu effaith amgylcheddol negyddol ac ôl-troed carbon ein portffolio ariannu.
- Gwella galluoedd treftadaeth naturiol a diwylliannol wrth gynllunio ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac addasu iddo, a helpu prosiectau i weithredu dros yr amgylchedd.

# Egwyddor fuddsoddi 3

## Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad

***Cefnogi gwell cynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth.***

**Beth mae hyn yn ei olygu**

Byddwn yn cefnogi sefydliadau i sicrhau bod gan bawb gyfleoedd i ddysgu, datblygu sgiliau newydd a fforio treftadaeth, beth bynnag fo'u cefndir neu amgylchiadau personol.

**Beth fyddwn ni’n gwneud**

**Cynnwys gwell amrywiaeth o bobl mewn treftadaeth**, gan fuddsoddi mewn gwirfoddoli, gyrfaoedd treftadaeth, cyd-greu prosiectau, arweinyddiaeth, llywodraethu a datblygu gwybodaeth a sgiliau.

**Galluogi sefydliadau i ddileu rhwystrau i fynediad a chyfranogiad**, yn enwedig i bobl sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth.

**Cefnogi pob cymuned i ymchwilio i'w treftadaeth a'i rhannu**, gan ganolbwyntio ar wneud storïau ein pedair gwlad yn fwy cynhwysol o dreftadaeth pawb.

**Adnoddau treftadaeth ddigidol hygyrch**: Cefnogi gwell defnydd o dechnoleg ddigidol i wneud treftadaeth yn fwy hygyrch a phleserus, a hyrwyddo gwell mynediad at wybodaeth am dreftadaeth, gan alluogi prosiectau i gynyddu eu heffaith a'u cyrhaeddiad.

**Erbyn 2033 byddwn wedi:**

- Cynyddu amrywiaeth gweithluoedd, arweinyddiaeth a chynulleidfaoedd treftadaeth.
- Mynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad ar gyfer pobl sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth, gan ddarparu cyfleoedd mwy teg i ymwneud a chymryd rhan yn weithredol.
- Cyfoethogi bywydau pobl trwy ein buddsoddiadau, gan alluogi treftadaeth pawb i gael ei chydnabod.
- Cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol mewn treftadaeth yn greadigol er mwyn hybu mynediad a chyrhaeddiad.

# Egwyddor fuddsoddi 4

## Cynaladwyedd sefydliadol

***Cryfhau treftadaeth er mwyn iddi addasu a bod yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau.***

**Beth mae hyn yn ei olygu**

Byddwn yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu'r sgiliau a'r capasiti i sicrhau dyfodol cadarn yn y tymor hir ac annog buddsoddi newydd mewn treftadaeth y bydd cymunedau ac economïau'n elwa ohono.

**Beth fyddwn ni’n ei wneud**

**Cefnogi cynaladwyedd ariannol:** Byddwn yn parhau i gynnig ariannu i adeiladu cydnerthedd, gan ddarparu capasiti ac arbenigedd i sefydliadau ddatblygu eu cynlluniau sefydliadol ac ariannol hirdymor.

**Cefnogi datblygu sgiliau treftadaeth**: Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i adeiladu capasiti, sgiliau ac arbenigedd ym maes treftadaeth, er mwyn cyfrannu at gymunedau ac economïau ffyniannus.

**Darparu cyllid hyblyg**: Byddwn yn cynnig cymorth ariannol hyblyg yng nghamau cynnar cynllunio prosiectau ar gyfer dadansoddi a gweithgareddau paratoi. Byddwn hefyd yn sicrhau bod arian dilynol ar gael am gyfnodau amser cyfyngedig ar ôl cwblhau prosiectau cyfalaf sylweddol i helpu i ymwreiddio sefydlogrwydd gweithredol.

**Cyllid a buddsoddi newydd:** Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o ffynonellau incwm mwy amrywiol fel cyllid gwyrdd a dulliau masnachol ac yn helpu i adeiladu'r capasiti a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno hyn.

**Erbyn 2033 byddwn wedi:**

- Cefnogi sefydliadau i gynyddu eu cynaladwyedd ariannol a sefydliadol drwy ddatblygu eu sgiliau masnachol a digidol a chryfhau llywodraethu ac arweinyddiaeth.
- Cefnogi datblygu sgiliau a chapasiti yn y sector treftadaeth.
- Defnyddio ein model ariannu hyblyg i ymwreiddio cydnerthedd yn y prosiectau rydym yn eu hariannu.

- Galluogi'r sector treftadaeth i gryfhau ei gyfraniad at economïau a chymunedau lleol.

# Ein portffolio ariannu

## Agored, ymatebol, datganoledig

Byddwn ni'n parhau â'n hymagwedd bresennol o gynnig rhaglenni ariannu agored - o grantiau bach hyd at brosiectau gwerth miliynau o bunnoedd - ar gyfer pob math o dreftadaeth.

Bydd y rhan fwyaf o benderfyniadau ariannu'n parhau i gael eu dirprwyo i'n chwe phwyllgor ardal a gwlad ac i staff gweithredol ar draws y DU. Bydd hyn yn galluogi i wahaniaethau yng nghymeriad treftadaeth yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon elwa o arbenigedd lleol.

## Graddfa a chyrhaeddiad

£5miliwn fu'r uchafswm grant ar gyfer ein rhaglenni ariannu ers dros 20 mlynedd, ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i wireddu rhai mentrau. O 2023, byddwn yn cyflwyno trothwy buddsoddi uwch o £10m i ddarparu ar gyfer buddsoddi ar raddfa fwy a byddwn yn ystyried buddsoddi mewn prosiectau uwchben y trothwy er mwyn cefnogi prosiectau treftadaeth gwirioneddol eithriadol ar draws y DU. Byddwn ni'n addasu ein trothwyon a'n hymagwedd at fuddsoddi drwy'r strategaeth 10 mlynedd er mwyn ymateb i anghenion a gofynion treftadaeth.

## Ymyriadau strategol ar draws y DU

Byddwn hefyd yn cyflwyno ffrydiau ariannu strategol newydd gyda'r nod o:

- Fynd i'r afael yn rhagweithiol â materion treftadaeth hirsefydlog ar raddfa fawr.
- Cefnogi prosiectau sy'n rhoi hwb i falchder mewn lle a chysylltiad â threftadaeth.
- Cryfhau ein ffocws ar dreftadaeth sydd wrth wraidd lleoedd, natur a'r amgylchedd.
- Galluogi ymagwedd draws-diriogaethol gydlynus a fydd yn cryfhau cyflwyniad.
- Galluogi ni i ymateb i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ac argyfyngau ym gyflym ac ar lefel genedlaethol.
- Cefnogi prosiectau ac ymdrin â bylchau treftadaeth lle nad yw cynigion yn symud drwodd i'n rhaglenni agored.
- Cyflymu syniadau ac ymyriadau newydd lle mae angen ymagwedd bwrpasol.

Byddwn yn adolygu ein hymyriadau strategol yn rheolaidd trwy gynlluniau cyflwyno tair blynedd.

Bydd y mentrau cynnar yn cynnwys:

#### Lle

Byddwn ni'n targedu buddsoddi seiliedig ar le sy'n rhoi hwb i falchder mewn lleoedd ac yn cysylltu cymunedau ac ymwelwyr â threftadaeth. Gan ddefnyddio dangosyddion cenedlaethol, wedi'u cyfuno â gwybodaeth leol am anghenion, cyfleoedd a photensial treftadaeth, byddwn yn buddsoddi o leiaf £200m dros oes y strategaeth hon. Byddwn yn rhoi hwb i gapasiti lleoedd a chymunedau lleol i ddatblygu partneriaethau ac yn chwilio am ardaloedd sydd â'r potensial i dynnu buddsoddiad ehangach i mewn ac elwa ohono.

#### Tirweddau a natur

Byddwn yn cefnogi prosiectau ar raddfa fawr sy'n adfywio tirweddau, yn cefnogi adferiad natur ac yn gwella cysylltedd pobl a bywyd gwyllt. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Ardaloedd o

Harddwch Naturiol Eithriadol, Parciau Cenedlaethol, sefydliadau cadwraeth, cymunedau a thirfeddianwyr i gychwyn adferiad tirweddau a chynefinoedd cyfan fel eu bod yn cefnogi treftadaeth naturiol doreithiog, treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a systemau naturiol iach. Byddwn yn buddsoddi ar draws ardaloedd gwledig, maestrefol a threfol i wella cymeriad y dirwedd drwy ariannu ymagweddau newydd, gweithgareddau cynaliadwy a gwelliannau cyfalaf.

**Treftadaeth mewn angen**

Byddwn ni'n mynd ati i lunio ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth at nodi bylchau yn y cymorth i'r sector treftadaeth, yn enwedig lle mae treftadaeth yn y fantol ac mae angen cadwraeth arni – er enghraifft mannau addoli neu dreftadaeth ddiwydiannol. Byddwn yn darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i adeiladu capasiti, datblygu ymagweddau at gynllunio prosiectau ac arallgyfeirio ffrydiau incwm er mwyn helpu i adeiladu amserlen brosiect ar gyfer y dyfodol.

**Caffaeliadau, cyfleoedd ac argyfyngau**

Byddwn yn sicrhau y gallwn ymateb yn gyflym a gweithredu pan fydd angen er mwyn ymateb i sefyllfaoedd a chyfleoedd unigryw. Gallai hyn olygu cefnogi caffael treftadaeth eithriadol, nodi digwyddiadau arwyddocaol neu gefnogi meysydd o dreftadaeth a sefydliadau sy'n delio ag argyfwng nas rhagwelwyd. Byddwn yn gweithio'n hyblyg pan fydd angen i'r sector treftadaeth ddod at ei gilydd er mwyn sicrhau dyfodol y pwysicaf o bob math o dreftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Cynllun cyflwyno Treftadaeth 2033: 2023–2026

See all updates
Archwilio faint y byddwn yn ei fuddsoddi a sut y byddwn yn cyflawni nodau ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033, dros y tair blynedd gyntaf.

| Atodiad | Maint |
|---|---|
| Heritage 2033 delivery plan 2023–2026 – year 2 | 1.25 MB |
| Treftadaeth 2033 cynllun cyflwyno 2023–2026 – blwyddyn 2 | 1.88 MB |

**Diweddariad diwethaf: Hydref 2024**



Castell Porchester, Hampshire © Sadé Elufowoju/National Youth Theatre.

# Cyd-destun

## Diben y cynllun cyflwyno

Mae strategaeth 10 mlynedd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Treftadaeth 2033, yn disgrifio ein huchelgais i wneud gwahaniaeth gwirioneddol dros bobl, lleoedd a chymunedau wrth i ni fuddsoddi swm disgwyliedig o £3.6 biliwn sydd i'w godi ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol dros y deng mlynedd nesaf.

Mae ein strategaeth hirdymor wedi'i hategu gan gynlluniau cyflwyno tair blynedd, sy'n disgrifio sut y bydd nodau'r strategaeth yn cael eu cyflwyno. Byddant yn galluogi ni i fabwysiadu ymagwedd hyblyg, gan addasu i anghenion y sector treftadaeth ac ymateb i ddigwyddiadau neu gyfleoedd allanol dros y 10 mlynedd.

Mae ein cynllun cyflwyno ar gyfer 2023-2026 yn nodi'r cerrig milltir allweddol a sut y byddwn yn cyflwyno'r buddsoddiad Loteri Genedlaethol am y tair blynedd gyntaf, yn ogystal â sut rydym wedi pontio i'n strategaeth newydd yn 2023–2024. Caiff y cynllun hwn ei ddiweddaru'n flynyddol fel rhan o'n prosesau cynllunio busnes.

## Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw gwerthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

## Ein hegwyddorion buddsoddi

Mae ein pedair egwyddor fuddsoddi yn cyfeirio ein holl benderfyniadau:

- Achub treftadaeth: gwarchod a gwerthfawrogi treftadaeth, nawr ac yn y dyfodol.
- Diogelu'r amgylchedd: cefnogi adferiad byd natur a chynaladwyedd amgylcheddol.
- Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad: cefnogi gwell cynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth.
- Cynaladwyedd sefydliadol: cryfhau treftadaeth er mwyn iddi addasu a bod yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau.

**Rydym yn gofyn i brosiectau a ariannwn gymryd y pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth yn eu ceisiadau.** Ceir mwy o arweiniad i ymgeiswyr ar ein gwefan.

## Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn gweithio. Maent wedi'u hymwreiddio ar draws ein cynllunio strategol a busnes a'n dulliau arwain a rheoli. Ein pedwar gwerth yw:???

- **Cynhwysol** o bob agwedd ar dreftadaeth, pobl a chymunedau.?
- **Uchelgeisiol** ar gyfer ein pobl, ein cymunedau a'n treftadaeth.?
- **Cydweithredol** trwy weithio a dysgu gyda'n gilydd.?
- **Ymddiriedir ynom** am ein cyfanrwydd, ein harbenigedd a'n barn.

## Rôl Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Fel ariannwr mwyaf treftadaeth y DU, mae gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (Cronfa Treftadaeth) y fraint o fuddsoddi arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol mewn treftadaeth ar draws y DU, mewn cydweithrediad ag ystod eang o gyrff statudol, yn ogystal â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol. Rydym yn dyfarnu 20% o'r incwm achosion da a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ac yn cyflwyno rhaglenni grant ar ran llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sy'n cydweddu â'n gweledigaeth a'n hegwyddorion buddsoddi.

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n atebol i Senedd y DU drwy'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae ein penderfyniadau am geisiadau a pholisïau unigol yn gwbl annibynnol o lywodraeth y DU. Mae mwyafrif y penderfyniadau ariannu'n cael eu gwneud gan ein chwe phwyllgor ardal a gwlad gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol ac yn cael eu cefnogi gan ein timau ledled y DU. Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yw ein corff cyfreithiol ar gyfer gweinyddu a goruchwylio'r holl arian a freinir ynom. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 i weinyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.

## Rôl Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Sefydlwyd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) ym 1980 i achub rhannau mwyaf rhagorol ein treftadaeth genedlaethol, er cof am y rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y DU.

Fel cronfa cyfle olaf, mae CGDG yn rhoi cymorth ariannol tuag at gaffael, cadw a chynnal rhai o wrthrychau a thirweddau gorau'r DU. Mae'r rhain yn amrywio o dai hanesyddol a gweithiau celf, i drenau, cychod a thirweddau hynafol. Mae CGDG wedi helpu i greu un o'r casgliadau gorau yn y byd sy'n perthyn i bobl y Deyrnas Unedig, am byth.

Mae'r cynllun cyflwyno hwn yn manylu ar sut y byddwn yn cyflwyno buddsoddiad y Loteri Genedlaethol.

# Ein cynllun ar gyfer 2023-2026

## Cyflwyno Treftadaeth 2033

Ein blaenoriaeth yn 2023–2024 oedd gweithredu ein strategaeth newydd a phontio o Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 i'r nodau a'r pedair egwyddor fuddsoddi newydd a ddisgrifir yn Treftadaeth 2033.

Yn y flwyddyn gyntaf hon gwnaethom sefydlu a symleiddio ein prosesau ariannu wrth i ni bontio i asesu ceisiadau ariannu o dan y pedair egwyddor fuddsoddi, yn ogystal â mapio datblygiad ein mentrau a'n partneriaethau strategol. Roedd y rhaglen weithredu hon yn cynnwys diweddaru ein harweiniad, ein ffurflenni cais a'n prosesau, a gwaith datblygu i adolygu'r ffordd yr ydym yn monitro ac yn gwerthuso effaith ein grantiau. Yn yr ail flwyddyn byddwn yn parhau â'r gwaith hwn ac yn adolygu effaith y pontio ar ymgeiswyr grant a staff fel rhan o'n rhaglen gwelliant parhaus.

Bydd ein dull ariannu yn parhau i fod yn agored, yn ymatebol ac wedi’i ddatganoli, gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol i gefnogi prosiectau treftadaeth sydd wrth wraidd gweledigaethau dros newid a arweinir yn lleol. Byddwn ni'n:

- cyflwyno ymagwedd sy'n seiliedig ar le drwy ein buddsoddiadau, mentrau strategol a phartneriaethau
- sefydlu partneriaethau newydd a chydweithio hirdymor i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn y sector
- defnyddio ymchwil, dadansoddi a mewnwelediad i gefnogi gweledigaeth hirdymor a rennir ar gyfer treftadaeth ac i wella ein darpariaeth
- hyrwyddo arloesedd i ddod o hyd i atebion newydd i heriau yn y byd treftadaeth
- tyfu arweinyddiaeth a hyder digidol ar draws treftadaeth y DU
- cydweithio â phartneriaid mewn llywodraethau, cyrff hyd braich, dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau annibynnol i lunio mentrau newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd ar gyfer treftadaeth
- ariannwr cynhwysol, hygyrch a theg

## Cynlluniau a chyllidebau buddsoddi

## Cynlluniau a chyllidebau buddsoddi

Mae ein cynlluniau buddsoddi a chyflwyno tair blynedd wedi'u disgrifio isod. Mae'r cyllidebau'n ddangosol, yn seiliedig ar ragolygon incwm y Loteri Genedlaethol a ddarperir gan y Comisiwn Hapchwarae. Gall rhagolygon newid a byddant yn cael eu diweddaru fel rhan o broses adolygu flynyddol y cynllun cyflwyno. Bydd cynlluniau cyllideb yn cael eu hadolygu drwy gydol y tair blynedd a'u diweddaru fel y bo angen i fodloni blaenoriaethau strategol.

Fel y disgrifir isod, rydym hefyd yn dosbarthu cyllid nad yw'n dod o'r Loteri, gan gynnwys gan lywodraethau, i gefnogi treftadaeth y DU.

**Rhagamcaniad o gyfanswm y buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol**

| Rhaglen | Blwyddyn 1 2023–2024 | Blwyddyn 2 2024–2025 | Blwyddyn 3 2025–2026 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm buddsoddiad y Loteri Genedlaethol** | £415miliwn | £417miliwn | £438miliwn |
| **Buddsoddiad rhaglenni agored** | £408m | £372m | £371m |

| Rhaglen | Blwyddyn 1<br>2023–2024 | Blwyddyn 2<br>2024–2025 | Blwyddyn 3<br>2025–2026 |
| --- | --- | --- | --- |
| **Mentrau strategol y Loteri Genedlaethol** | £7m | £45m | £67m |

## Buddsoddiad rhaglenni ariannu eraill

- £52.95miliwn

## Gweithgareddau rhaglenni'r Loteri Genedlaethol

#### Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth yn flaenorol)

Ein rhaglen grantiau ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU.

##### Blwyddyn 1 (2023-2024):

- Adolygu Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn unol â Threftadaeth 2033.
- Newid trothwyon grant i £10,000–£10m ac ymgymryd â gwaith cwmpasu i barhau i ddarparu grantiau o dan £10,000 drwy sefydliadau a mentrau eraill.*
- Adolygu a symleiddio ein prosesau ymgeisio, asesu a monitro.
- Rheoli a chefnogi cwsmeriaid trwy bontio ceisiadau o Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 (FfAS) i Dreftadaeth 2033:
  - ceisiadau olaf am grantiau rhwng £10,000 a £10miliwn o dan y FfAS: Tachwedd 2023
  - ceisiadau olaf am grantiau hyd at £10,000: Rhagfyr 2023
  - ceisiadau cyntaf am grantiau rhwng £10,000 a £10miliwn o dan Treftadaeth 2033, gydag arweiniad a ffurflenni cais newydd: Ionawr 2024
- Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys DCMS ac asiantaethau statudol, i ddatblygu ein hymagwedd at sgiliau a phlant a phobl ifanc.

##### Blwyddyn 2 (2024-2025):

- Cwblhau'r broses bontio i ddarparu Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o dan bedair egwyddor fuddsoddi Treftadaeth 2033.
- Gwneud y dyfarniadau cyntaf hyd at £250,000 o dan Treftadaeth 2033.
- Gwneud y dyfarniadau cyntaf dros £250,000 o dan Treftadaeth 2033.
- Parhau i gwmpasu a chyflwyno grantiau dan £10,000 drwy sefydliadau a mentrau eraill lle mae galw strategol a gwerthuso hynny.
- Parhau i symleiddio ein prosesau ymgeisio, asesu ac ôl-ddyfarnu.
- Penderfynu ar ddulliau o gefnogi prosiectau i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn treftadaeth a darparu llwybrau i ddatblygu sgiliau trwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

##### Blwyddyn 3 (2025-2026):

- Parhau i werthuso ein prosesau newydd a mesur effaith gychwynnol Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o dan Treftadaeth 2033.
- Cyflwyno grantiau o dan £10,000 drwy sefydliadau a mentrau eraill a gwerthuso hynny.

*Gellir dyfarnu grantiau dros £10m mewn amgylchiadau eithriadol er mwyn cyflawni uchelgeisiau Treftadaeth 2033.

#### Menter strategol: Lleoedd Treftadaeth

Helpu i drawsnewid treftadaeth mewn 20 o wahanol leoedd, rhoi treftadaeth wrth wraidd ymagweddau lleol i roi hwb i falchder mewn lle, adfywio economïau lleol a gwella cysylltiad pobl â'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â nhw.

##### Blwyddyn 1 (2023-2024):

- Naw lleoliad wedi'u nodi ar gyfer buddsoddi strategol gan ddefnyddio data am lefelau treftadaeth, cymdeithas a buddsoddi, ochr yn ochr â gwybodaeth leol.
- Deall anghenion lleol y lleoliadau a ddewiswyd, cefnogi capasiti i flaengynllunio ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd.
- Grantiau cynllunio a datblygu prosiectau.

##### Blwyddyn 2 (2024-2025):

- Grantiau ar gael ar gyfer cyflwyno prosiectau.
- Nodi'r rownd nesaf o leoedd.
- Sefydlu prosesau ar gyfer gwerthuso.

##### Blwyddyn 3 (2025-2026):

- Cyhoeddi'r rownd nesaf o leoedd.
- Bydd y fenter yn parhau dros oes y strategaeth 10 mlynedd.

#### Menter strategol: Trefi a Dinasoedd Natur

Partneriaeth i gyflwyno adferiad byd natur trefol trwy barciau a mannau gwyrdd hanesyddol ffyniannus.

##### Blwyddyn 1 (2023-2024):

- Datblygu partneriaethau i ddylunio a chyflwyno menter.
- Deall anghenion a dylunio lleol, ac adeiladu gallu.

##### Blwyddyn 2 (2024-2025):

- Cynllun menter yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Natural England ac asiantaethau natur statudol yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Lansio'r fenter bartneriaeth a rhaglen grantiau.

##### Blwyddyn 3 (2025-2026):

- Grantiau ar gael ar gyfer cyflwyno prosiectau.
- Monitro a gwerthuso.
- Arian grant i barhau y tu hwnt i 2025–2026.

#### Menter strategol: Cysylltiadau Tirwedd

Adferiad byd natur ar raddfa tirweddau ar draws tirweddau cenedlaethol y DU, gan ddarparu gwell cysylltiadau i bobl ac i natur.

**Blwyddyn 1 (2023-2024):**

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y DU i ddatblygu'r fenter.
- Buddsoddiad cychwynnol i gefnogi cynllunio prosiectau.

**Blwyddyn 2 (2024-2025):**

- Lansio ein cronfa £150m i gefnogi tua 20 o brosiectau i wella a diogelu tirweddau o safon fyd-eang y DU.

**Blwyddyn 3 (2025-2026):**

- Grantiau ar gael ar gyfer datblygu a chyflwyno prosiectau.
- Sefydlu cymuned ymarfer.
- Monitro a gwerthuso.
- Bydd y fenter yn parhau dros oes ein strategaeth 10 mlynedd.

**Treftadaeth mewn Angen**

Nodi bylchau mewn cefnogaeth i'r sector treftadaeth, yn enwedig lle mae risg i dreftadaeth a bod angen ei gwarchod.

**Blwyddyn 1 (2023-2024):**

- Ymchwil a datblygu a gweithio gyda phartneriaid strategol ar draws y DU i nodi'r ffocws cychwynnol ar gyfer cymorth, gan gynnwys ar gyfer mannau addoli.

**Blwyddyn 2 (2024-2025):**

- Defnyddio data a mewnwelediad i nodi ein hymagwedd gyffredinol at flaenoriaethu treftadaeth mewn angen.
- Mannau addoli: buddsoddiad strategol mewn prosiectau i adeiladu gallu a llenwi bylchau yn y cymorth presennol ar gyfer treftadaeth sydd mewn perygl a thargedu hyrwyddo ein cymorth at anghenion atgyweirio a chadwraeth.
- Treftadaeth forwrol: defnyddio ein mewnwelediadau ymchwil i helpu diffinio ein blaenoriaethau buddsoddi yn y maes hwn ar gyfer arian y Loteri Genedlaethol.

**Blwyddyn 3 (2025-2026):**

- Fframwaith ar waith a mentrau ar gyfer y dyfodol wedi'u nodi.
- Buddsoddi mewn prosiectau i lenwi bylchau yn y gefnogaeth i fannau addoli a threftadaeth forwrol sydd mewn perygl y mae angen eu gwarchod.

**Cyfleoedd**

Ymateb yn gyflym, a gweithredu pan fydd angen, i ymdrin â sefyllfaoedd, cyfleoedd a digwyddiadau unigryw.

**Blwyddyn 1 (2023-2024):**

- Eurovision Lerpwl 2023.
- Dinas Diwylliant.
- Rhaglen Newydd i Natur (ehangu).
- Paratoi pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 oed.

**Blwyddyn 2 (2024-2025):**

- Cyflwyno Dinas Diwylliant
- Dathlu pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 oed.
- Archives Revealed.
- Ymateb i gyfleoedd pellach.
- Gwerthuso Newydd i Natur a'r camau nesaf

**Blwyddyn 3 (2025-2026):**

- Cyflwyno Dinas Diwylliant yn dod i ben.
- Ymateb i gyfleoedd pellach.

**Rhaglenni a gwaith ar y cyd sydd eisoes yn digwydd**

Mentrau parhaussy'n cefnogi dulliau newydd o weithio, buddsoddiad arloesol a chydnerthedd.

**Blwyddyn 1 (2023-2024):**

- Cronfa Arloesi Treftadaeth.
- Cronfa Effaith y Celfyddydau a Diwylliant.
- Cronfa Effaith Treftadaeth.
- Cyfleuster ar gyfer Investment Ready Nature yn Yr Alban.
- Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol: Rhaglen Cherish.
- Cronfa Treftadaeth Bensaernïol: Menter yr Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth.
- Cronfa Codi'r Gwastad (cymorth sector).
- Cronfa Ystadau a Datblygu Amgueddfeydd (MEND).

**Blwyddyn 2 (2024-2025):**

- Cronfa Arloesi Treftadaeth.
- Cronfa Effaith Celfyddydau a Diwylliant a'n cydweithrediad a'n cefnogaeth ar gyfer sefydlu Figurative, gan ymgorffori Cyllid y Celfyddydau a Diwylliant, Nesta mewn sefydliad annibynnol, gan ysgogi effaith, arloesedd a buddsoddiad mewn diwylliant.
- Cronfa Effaith Treftadaeth.
- Cyfleuster ar gyfer Investment Ready Nature yn Yr Alban.
- Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol: Rhaglen Cherish.
- Cronfa Treftadaeth Bensaernïol: Menter yr Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth.
- Cronfa Ystadau a Datblygu Amgueddfeydd (MEND).

**Blwyddyn 3 (2025-2026):**

- Rhaglenni aml-flwyddyn cynlluniedig yn parhau a chyfleoedd newydd wedi'u nodi.

**Gweithgareddau rhaglenni ariannu eraill**

Rydym hefyd yn dosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri, gan gynnwys gan lywodraethau, i gefnogi treftadaeth ar draws y DU.

Mae'r portffolio presennol o raglenni cytunedig wedi'i nodi isod.

**Rhaglenni a ddarperir mewn partneriaeth ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) – £25m:**

- Species Survival Fund.
- Green Recovery Challenge Fund.*
- Trees Calls to Action Fund.*

**Rhaglenni a ddarperir mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru - £27.44m:**

- Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.**
- Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Chwalu Rhwystrau.
- Y Grant Buddsoddiad Coetiroedd.**
- Y Grant Buddsoddiad Coetiroedd, Coetiroedd Bach.
- Rhwydweithiau Natur.**

**Rhaglen wedi'i chyflwyno mewn partneriaeth â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) – £550,000, wedi'i ddyfarnu 2022–2023:**

- Know Your Neighbourhood (trwy Raglen Ddiwylliannol High Street Heritage Action Zone Historic England).*

Mae'r holl raglenni ariannu'n amodol ar gydsyniad tîm Gweithredol y Gronfa Treftadaeth i'r achos busnes.

*Mae rhaglenni wedi dyfarnu'r grantiau sydd ar gael ac mae'r prosiectau'n cael eu cyflwyno.

**Rhaglenni a ariennir yn rhannol gan y Loteri Genedlaethol.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ariannu unigol ar gael ar ein gwefan.

## Incwm a chostau

Rydym yn derbyn ac yn dyfarnu 20% o incwm achosion da'r Loteri Genedlaethol ac yn gosod ein cyllidebau buddsoddi bob blwyddyn gan ddibynnu ar y swm a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar draws y DU. Ar unrhyw adeg, mae gennym flaenoriaeth gyflwyno weithredol o tua 2,500 o brosiectau byw, sydd wedi'i nodi yn y cronfeydd arian parod wrth gefn a'r rhwymedigaethau yn ein cyfrifon ariannol.

Yn ychwanegol at incwm gan y Loteri Genedlaethol, rydym yn derbyn incwm blynyddol gan lywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o £5.3m, sef £5.2m ar gyfer grantiau a £0.1m ar gyfer costau gweinyddu. Rydym hefyd yn derbyn incwm gan lywodraethau a chyrff eraill fel DCMS, Defra, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru i ddosbarthu grantiau.

Am dair blynedd gyntaf Treftadaeth 2033, ein nod yw dyfarnu dros £1bn (gweler y tabl gyferbyn) gyda phortffolio sy'n cynnwys Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ogystal â mentrau a phartneriaethau strategol.

| Buddsoddiad rhagamcanol | 2023–2024* | 2024–2025 | 2025–2026 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Incwm gan y Loteri | £355m | £361m | £361m | £1,077m |
| Costau gweithredu | -£28m | -£28m | -£28m | -£84m |
| Cydbwyso cymarebau buddsoddi** | £88m | £84m | £105m | £277m |
| Y cyfanswm sydd ar gael o ran buddsoddiad y Loteri | £415m | £417m | £438m | £1,270m |

*2023–2024 yn dangos ffigurau gwirioneddol.

**Mae newid yng nghyfanswm y buddsoddiad i gymhareb balans Cronfa Ddosbarthu’r Loteri Genedlaethol wedi caniatáu ar gyfer ymrwymiadau ychwanegol dros y cyfnod cynllunio hwn.

Mae cyfanswm costau gweithredu'r Loteri Genedlaethol wedi'u pennu gan DCMS ac ni ddylent fod yn fwy na 7.75% o incwm blynyddol gan y Loteri Genedlaethol dros gyfnod treigl o dair blynedd.

Dyma gynllun cyflwyno byw a fydd yn cael ei reoli'n hyblyg ac yn addasu dros amser i ymateb i ddigwyddiadau a chyfleoedd allanol ac wrth i ni ddatblygu ein syniadau gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid.

## Blaenoriaethau cyflwyno ar gyfer 2024-2025

### 1: Cyflwyno arian grant

Denu a buddsoddi mewn prosiectau treftadaeth sy’n adlewyrchu ein pedair egwyddor fuddsoddi a’r uchelgeisiau a nodir yn Treftadaeth 2033, gan weithio gyda phartneriaid i fwyafu effaith cymorth ac ariannu ar gyfer treftadaeth y DU. Rheoli tua 2,500 o brosiectau gweithredol y Loteri Genedlaethol a rhaglenni cymorth grant ehangach yn llwyddiannus.

### 2: Mentrau strategol

Datblygu a chyflwyno’r mentrau strategol a sefydlwyd yn Treftadaeth 2033, gan ymateb i gyfleoedd a digwyddiadau sy’n helpu cyflwyno’r uchelgeisiau a nodir yn ein strategaeth.

### 3: Cydweithio, partneriaethau ac ymgysylltu

Eirioli dros Treftadaeth 2033 a’n rôl nodedig wrth ysgogi effaith dros dreftadaeth, gan adeiladu perthnasoedd a chydweithio â rhanddeiliaid ar draws y DU sy’n helpu cyflwyno nodau strategol Treftadaeth 2033 a lansio a chyfathrebu effaith partneriaethau newydd yn llwyddiannus.

### 4: Effaith a gwella

Parhau i wella ein darpariaeth sefydliadol, gan ymwreiddio’r sgiliau, y galluoedd, yr adnoddau, y systemau a'r diwylliant cywir i gyflwyno a mesur effaith Treftadaeth 2033 yn llwyddiannus.

Ochr yn ochr â chyflwyniad craidd Treftadaeth 2033 a chefnogaeth i'r sector treftadaeth, y sail i'n gwaith a'n cynlluniau adrannol yw'r ymrwymiad i –

**Ymwreiddio cynaladwyedd amgylcheddol yn ein portffolio buddsoddi'r Loteri Genedlaethol a'n gweithrediadau mewnol:**

- gweithio ar y cyd i ddysgu o arfer gorau a'i rannu ar draws adferiad natur, cyfiawnder hinsawdd ac addasu i'r hinsawdd
- lleihau ein heffaith amgylcheddol a gweithio tuag at ddau uchelgais carbon sero net:

  - cyflwyno cynllun datgarboneiddio i gyrraedd ein nod tymor canolig o garbon sero net cyn 2030 ar gyfer ein gweithrediadau, datgarboneiddio ein swyddfeydd, teithio, gwastraff a phwrcasiadau
  - cyrraedd sero net erbyn 20250 ar gyfer ein buddsoddiadau a'n grantiau (targedau'n seiliedig ar wyddoniaeth yn unol â Chytundeb Paris 2015)

Rydym yn adrodd ar ein heffaith amgylcheddol fel rhan o'n Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI) yn ein buddsoddiad a'n gweithrediadau:**

- gweithrediad parhaus camau ein Hadolygiad EDI 2021, gan ymdrin â gwelliannau ar draws ein gweithlu, llywodraethu a diwylliant sefydliadol
- datblygu partneriaethau a gweithio ar y cyd i sicrhau mynediad teg i'n hariannu ar gyfer prosiectau a arweinir gan bobl nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth

Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon i ddosbarthu arian gan y Loteri Genedlaethol a'r llywodraeth ar gyfer treftadaeth.

# Llywodraethu a gwneud penderfyniadau

## Y Bwrdd, pwyllgorau a gwneud penderfyniadau

Rydym wedi'n llywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n arwain ar ddatblygu strategaeth, gyda'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau ariannu terfynol ar geisiadau grant dros £5m ac yn cadw cyllideb fuddsoddi ganolog ar gyfer mentrau strategol a rhaglenni DU gyfan.

Mae gennym chwe phwyllgor dyfarnu grantiau yng Nghymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac mewn tair ardal yn Lloegr – Gogledd Lloegr, Canolbarth a Dwyrain Lloegr , a Llundain a De Lloegr - sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau am grantiau rhwng £250,000 a £5m. Rydym yn parhau i ddirprwyo'r rhan fwyaf o'n penderfyniadau i'r chwe phwyllgor ardal a gwlad hyn ac i weithwyr gweithredol ar draws y DU (ar gyfer penderfyniadau o dan £250,000).

Rydym yn cadw ‘swm gwlad wrth gefn’ yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer grantiau na ellir darparu ar eu cyfer mewn cyllidebau per capita dirprwyedig.

Ar gyfer grantiau dros £5m, mae ein Bwrdd yn goruchwylio ac yn gwneud penderfyniadau, gan alw ar arbenigedd ac argymhellion lleol y pwyllgorau ardal a gwlad.

Wedi'u dyrannu ar sail per capita, mae pwyllgorau dyfarnu grantiau'n derbyn y canrannau canlynol o gyllidebau dirprwyedig:

| Ardal/cenedl | Cyllideb |
|---|---|
| Gogledd Iwerddon | 2.9% |
| Cymru | 4.8% |
| Yr Alban | 8.4% |
| Lloegr, Gogledd | 23.7% |
| Lloegr, Canolbarth a Dwyrain | 25.2% |
| Lloegr, Llundain a'r De | 35% |

Mae'r prosesau ar gyfer ceisiadau grant, gwneud penderfyniadau a monitro grantiau wedi'u nodi ar ein gwefan.

## Rheoli risgiau

Mae ein cofrestr risgiau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y tîm Gweithredol, y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae ein hawydd am risg yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd unwaith y flwyddyn.

Ein prif risgiau a mesurau lliniaru ar gyfer ail flwyddyn y cynllun cyflwyno, 2024–2025, ar y dyddiad cyhoeddi yw:

### Strategol

Gweithrediad y strategaeth newydd yn arafach na'r disgwyl neu'n methu â chyflwyno yn erbyn y pedair egwyddor fuddsoddi. Byddwn yn rheoli hyn drwy:

- hyfforddi staff a phwyllgorau
- gwybodaeth reoli i lywio cyflwyno ac ailffocysu gweithgarwch fel y bo angen
- gweithredu ac adrodd ar effaith trwy gyflwyno Fframwaith Effaith ffurfiol
- goruchwyliaeth gan y Bwrdd a thimau Gweithredol

Data, mewnwelediad ac arbenigedd annigonol i olrhain a deall effaith strategol Treftadaeth 2033. Byddwn yn rheoli hyn drwy:

- wella ffynonellau data ac olrhain cynnydd cyflwyno'n weithredol trwy ddatblygu ein system rheoli buddsoddiadau
- cyflwyno Fframwaith Effaith newydd i fesur ac ymateb i dystiolaeth o'n heffaith
- recriwtio a datblygu aelodau staff sydd â sgiliau priodol

Effaith ar biblinell y Gronfa Treftadaeth os bydd prosiectau presennol yn wynebu problemau mawr neu'n methu, neu os na chyflwynir ceisiadau newydd oherwydd risgiau economaidd. Byddwn yn rheoli hyn drwy:

- fonitro prosiectau'n weithredol yn unol â'n harweiniad ac adeiladu perthnasoedd â grantïon i nodi problemau'n gynnar
- defnydd wedi'i dargedu o arbenigwyr allanol i lywio penderfyniadau dyfarnu'n well
- gwella dealltwriaeth aseswyr a’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau o'r dirwedd ariannu a risgiau prosiectau unigol
- marchnata gweithredol a chynllunio ymgysylltu

### Economaidd

Mae anwadaliad yn yr amgylchedd allanol yn arwain at wahanol flaenoriaethau ariannu a pholisi ar gyfer y sector treftadaeth. Byddwn yn rheoli hyn drwy:

- berthynas waith agos â rhanddeiliaid gan gynnwys tîm noddi DCMS i ddangos cyfraniad buddsoddiad mewn treftadaeth
- atgyfnerthu ein hymagwedd at ymgysylltu a gwneud penderfyniadau datganoledig
- sicrhau bod ein strategaeth yn hyblyg a bod modd ei haddasu drwy gynlluniau cyflwyno tair blynedd a chyllidebu gydag adolygiadau blynyddol

Mae gostyngiad materol parhaus yn incwm y Loteri Genedlaethol yn golygu na allwn ariannu prosiectau allweddol i gyflwyno ein strategaeth. Byddwn yn rheoli hyn drwy:

- weithio ar y cyd ag Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol i gryfhau marchnata achosion da
- cynllunio senarios ar gyfer ystod o opsiynau ariannol

- gweithio ar y cyd gyda gweithredwr y Loteri Genedlaethol drwy Fforwm y Loteri Genedlaethol i rannu mewnwelediad

**Gweithredol**

Mae methu â denu a chadw gweithlu amrywiol a medrus yn arwain at leihad mewn gwybodaeth allweddol ac yn lleihau cyflwyno, gallu ac effeithiolrwydd. Byddwn yn rheoli hyn drwy:

- barhau i wella prosesau recriwtio gan gynnwys ehangu sianeli recriwtio, prosesau ymgynefino a chroesawu staff
- datblygu cyfleoedd hyfforddi a dysgu perthnasol i staff
- datblygu ein cynnig gwerth cyflogeion

Methiant parhaus sylweddol o systemau neu swyddogaethau, cyfaddawdu diogelwch data. Byddwn yn rheoli hyn drwy:

- fesurau rheoli mynediad ataliol ac offer datgelu
- monitro ac adrodd ac weithgarwch meddalwedd
- cynlluniau parhad busnes a digwyddiadau critigol yn eu lle
- rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff
- diogelwch data a pholisïau yn eu lle ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

# Tryloywder

Rydym yn cydnabod ein rhwymedigaethau i chwaraewyr a threthdalwyr y Loteri Genedlaethol wrth esbonio sut rydym yn defnyddio eu harian, ac ariannu gweithio mewn cydymffurfiaeth â deddfau perthnasol a'r Ddogfen Fframwaith gyda DCMS.

Fel corff sy'n wynebu'r cyhoedd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd a'i bod yn hawdd ei deall. Am fwy o wybodaeth, gweler adran Tryloywder ein gwefan.

Cyhoeddir ein data dyfarniadau ar GrantNav, sy'n safon data agored, ar ein gwefan a thrwy ddatganiadau ystadegol DCMS a Swyddfa'r Cabinet. Rydym yn cyhoeddi manylion dyfarniadau grant unigol y gellir ystyried eu bod yn gymorthdaliadau er mwyn cydymffurfio â gofynion tryloywder Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Rydym hefyd yn cyhoeddi'r canlynol ar ein gwefan:

- ein Hadroddiadau a Chyfrifon Blynyddol sy'n cynnwys cyflogau staff uwch
- penderfyniadau ein Bwrdd a'n pwyllgorau ar geisiadau grant
- ein strwythurau llywodraethu a manylion ein hymddiriedolwyr, aelodau pwyllgorau a staff uwch
- ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033
- cyfleoedd swyddi a gweithio gyda ni gan gynnwys aelodaeth o bwyllgorau a swyddi ymddiriedolwyr pan fyddant yn codi
- gwybodaeth am gydraddoldeb y gweithlu i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb
- manylion yr holl raglenni grant gydag arweiniad ar sut i wneud cais, gofynion a dolenni i'n porth ar-lein ar gyfer cyflwyno ceisiadau
- sut rydym yn gweithio gyda chi i gyflwyno eich prosiect a'ch canlyniadau
- gwybodaeth gorfforaethol arall

Hysbysebir tendrau gwerth £30,000 (gan gynnwys TAW) neu fwy lle rydym yn chwilio am gyflenwyr/partneriaid busnes i'n helpu i gyflwyno ein busnes ar Contracts Finder. Mae tendrau dros

drothwyon Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 hefyd yn cael eu hysbysebu ar y gwasanaeth Find a Tender ar wefan llywodraeth y DU. Cyhoeddir contractau (wedi'u golygu) a ddyfernir ar gyfer gwasanaethau a chymorth lle rydym wedi gosod y contractau hynny ar Contracts Finder.

# Effaith a pherfformiad

## Asesu effaith ein buddsoddiad

Mae Treftadaeth 2033 yn disgrifio'r newidiadau rydym am eu cyflawni erbyn 2033 ar draws ein pedair egwyddor fuddsoddi.

Yn ystod y flwyddyn bontio (2023–2024), fe wnaethom ddechrau dylunio Fframwaith Effaith newydd a fydd yn ein galluogi i werthuso ac asesu ein heffaith yn rheolaidd dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae ein Bwrdd wedi cytuno ar fframwaith i werthuso'r effaith ar **falchder mewn lle**, **treftadaeth wedi'i hadfywio** a'r **economi**, yn gysylltiedig â'n pedair egwyddor fuddsoddi:

- Achub treftadaeth: mae treftadaeth yn cael ei hadfywio ac mae ei chyflwr wedi'i wella.
- Diogelu'r amgylchedd: mae treftadaeth naturiol yn cael ei adfer.
- Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad: gall mwy o bobl gyrchu a chysylltu â threftadaeth.
- Cynaladwyedd sefydliadol: mae sefydliadau a ariannwn yn fwy medrus ac yn gadarn yn ariannol.

Yn ystod 2024-2025 a 2025-2026 byddwn yn cyflwyno mesurau ansoddol a meintiol er mwyn deall a ydym yn cyflwyno yn erbyn pob un o'r datganiadau hyn ac i ymateb fel y bo'n briodol. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn dangos sut mae'r Gronfa Treftadaeth yn cael effaith ar falchder mewn lle, treftadaeth wedi'i hadfywio a'r economi.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein holl ymchwil, mewnwelediad a gwerthuso ar gael ar ein gwefan, i alluogi asesiad llawn o'n heffaith ar dreftadaeth. Byddwn yn gwella ein hymagwedd at fesur a monitro effaith ein buddsoddiadau yn barhaus.

## Mesur ein perfformiad

Byddwn yn parhau i gynhyrchu ac adolygu dangosyddion gweithredol i fesur ein perfformiad trwy ein hadroddiadau i'n hadran noddi, DCMS. Mae'r dangosyddion hyn yn cyd-fynd â'r Fframwaith Effaith tymor hwy. Ein dangosyddion gweithredol presennol yw:

- gostyngiad mewn asedau treftadaeth yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' o ganlyniad uniongyrchol i fuddsoddiad gan y Gronfa Treftadaeth
- cyfran y ceisiadau grant a brosesir o fewn y graddfeydd amser a gyhoeddir
- y gyfran o'r cyhoedd sy'n ymwneud â threftadaeth, amgueddfeydd ac orielau fel y'i cofnodir yn Arolwg Cyfranogiad DCMS
- swm a chyfran yr ariannu i'r 20% o ardaloedd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig

Byddwn yn gwneud gwelliannau i'n dulliau cywain data ar effaith prosiectau fel y gallwn hefyd fonitro ac adrodd ar nifer y swyddi a gwirfoddolwyr a gefnogir yn uniongyrchol gan fuddsoddiad y Gronfa Treftadaeth.

## Ein safonau gwasanaeth

Rydym wedi gosod targedau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau i'n hymgeiswyr a'n grantïon.

### Penderfyniadau ar geisiadau

Fel arfer, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y cyfarfod penderfyniadau nesaf ar ôl yr asesiad fel a ganlyn –

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol dros £250,000:

- Ymateb i Fynegiad o Ddiddordeb: 20 diwrnod
- cais am grant datblygu/cyflwyno: 12 wythnos

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol hyd at £250,000:

- o adeg cyflwyno'r cais: wyth wythnos

**Taliadau grant**

Bydd taliadau grant yn cael ei wneud i'r grantï o fewn naw diwrnod gwaith o dderbyn y cais am daliad.